# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION – CYFARFOD MEDI 2020

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 16eg o Fedi, 2020** |
| **AMSER** | **7.00yh CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR +**<br>**Cyfarfod Misol y Cyngor i ddilyn** |
| **LLEOLIAD** | **Ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd Elin Evans, Huw Rowlands, Nerys Evans, Rhodri Dwyfor, Aeron M Jones, Eleri Thomas (Clerc) ag 2 x aelod o'r cyhoedd. |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jason Hunt, Gwilym Thomas, Tom Ellis, Gwilym Williams, Peter Roberts a Bryn Hughes. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | AMJ – 6e Swydd y Clerc - adnabod yr ymgeisydd. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 19eg o Awst, 2020 a materion yn codi** |
| | Nodwyd bod angen addasu pwynt 8(a) – i egluro nad oedd gwrthwynebiad ar y noson ond fod sylwadau ychwanegol wedi dod i'r amlwg y diwrnod canlynol.<br>Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gyda NE yn cynnig ag RD yn eilio. |
| **5.** | **Cyfarfod Blynyddol y Cyngor** |
| | Cymerodd y Clerc y gadair er mwyn ethol Cadeirydd newydd.<br><br>Etholwyd Huw Rowlands fel Cadeirydd gyda AMJ yn cynnig ag EE yn eilio.<br>Derbyniodd Huw'r rôl fel Cadeirydd ag estynnodd groeso i bawb. Etholwyd Jason Hunt fel is-gadeirydd gyda MW yn cynnig a AMJ yn eilio.<br><br>Etholwyd y canlynol fel aelodau'r is-bwyllgorau:<br>**Pwyllgor gweinyddol, polisi a chyllid:**<br>Jason Hunt<br>Michelle Williams<br>Aeron M Jones<br>Bryn Hughes<br><br>**Pwyllgor y Fynwent:**<br>Gwilym Lloyd Williams<br>Nerys Evans<br>Michelle Williams<br>Gwilym V Thomas<br>Bryn Hughes<br><br>**Pwyllgor goleuadau a llwybrau:**<br>Tom Ellis<br>Gwilym V Thomas<br>Elin Evans<br><br>**Cynrychiolwyr y cyngor ar bwyllgorau ychwanegol:**<br>Nerys Evans – Llywodraethwyr Ysgol Rhostryfan<br>Huw Rowlands - Cynrychiolydd Pwyllgor Un Llais Cymru<br>Peter Roberts – Llywodraethwyr Ysgol Rhosgadfan<br>Tom Ellis - Llywodraethwyr Ysgol Felinwnda<br>Jason Hunt – Cynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor Pentref Rhostryfan<br>Gwilym V Thomas, Michelle Williams, Aeron M Jones - Grŵp Cyswllt Chwarel Moel Tryfan. |

| | |
|---|---|
| | Nodwyd fod cyfnod NE wedi dod i ben fel Llywodraethwr, Ysgol Rhostryfan ond cytunodd i barhau i gynrychioli'r Cyngor am gyfnod arall.<br><br>Estynnwyd croeso i ddau aelod o'r cyhoedd i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd. Codwyd pryder ganddynt fod y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu cais cynllunio a'r eiddo Bryn Derwen, Rhostryfan er bod y cais wedi ei derbyn ar noson y cyfarfod mis Awst.<br><br>Ymatebwyd gan egluro fod camddealltwriaeth wedi digwydd ar y noson, ac nad oedd yn hawdd trafod ceisiadau cynllunio ar-lein oherwydd nad oedd yr holl ddogfennau o flaen y cynghorwyr ar y noson. Ychwanegwyd fod RD am ail-edrych ar y cais mewn mwy o fanylder ag o ganlyniad mi anfonwyd y sylwadau hynny ar y diwrnod canlynol i'r Clerc eu hanfon ymlaen i Gyngor Gwynedd.<br><br>Eglurodd yr aelodau o'r cyhoedd fod rhai o'r pwyntiau oedd wedi eu nodi yn erbyn y cais cynllunio yn annheg. Nodwyd eu bod wedi derbyn 3 x archwiliad ystlumod i wneud yn siŵr nad oedd rhai yn bresennol. Yn ychwanegol cadarnhaodd yr aelodau o'r cyhoedd nad oedd llawer o wahaniaeth yn y ffigyrau wrth ddymchwel tŷ a chodi adeilad o'r newydd. Nid oes newid yn edrychiad nag arwynebedd y cais newydd.<br><br>Cadarnhaodd y Cyngor Cymuned bod yr eitem wedi ei nodi ar yr agenda ac y byddent yn ail-edrych ar y cais yn y cyfarfod – eitem 9(b).<br><br>Derbyniwyd cwestiwn mewn e-bost gan aelod o'r cyhoedd nad oedd yn bresennol ar-lein. Holwyd os oedd yn bosib cael arwydd 30mya ar y ffordd ger Mynwent Cefnfaes, Rhos Isaf. Eglurodd AMJ bod y cais hwn wedi ei wrthwynebu o'r blaen. Ni fyddai CG yn cysidro rhoi arwyddion 30mya os nad oedd tai 2 x dwy ochr i'r ffordd neu os nad oedd damwain wedi ei gofnodi yno. Gofynnwyd i'r clerc holi am y posibilrwydd o gael arwyddion golau yn fflachio yno. |
| **6.** | **Materion Misol** |
| | a) NE – Llwybr Bryngwyn<br>Cadarnhaodd y Clerc fod gwaith atgyweirio ar y ffens oedd wedi prydu wedi ei gwblhau.<br><br>b) Grant Loteri<br>Eglurodd AMJ yn y pythefnos o'r cynllun ddechrau fod mwy o geisiadau wedi dod i mewn. Adroddodd fod gwell trefn erbyn yr ail wythnos ag estynnodd diolch i MW + RD am eu gwaith yn ei gynorthwyo.<br><br>c) PR – Wal ger Mountain Rangers wedi torri – gofynnwyd i'r Clerc adrodd y broblem i'r Adran Priffyrdd, CG.<br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda CG ac mai cyfrifoldeb y perchnogion oedd atgyweirio'r wal. Dywedodd AMJ fod pwerau gan GG i orfodi perchnogion wneud gwaith atgyweirio os oedd peryg i'r cyhoedd. Cytunodd MW i dynnu lluniau a'u hanfon ymlaen i AMJ.<br><br>d) Mynwent Cefnfaes – asesiad risg (BH)<br>Nodwyd y byddai'n fuddiol trefnu cyfarfod is-bwyllgor mynwent ar-lein gan anfon copi o asesiad risg ag adroddiad BH ymlaen i'r aelodau ymlaen llaw.<br><br>e) Swydd y Clerc<br>Datganwyd buddiant gan AMJ a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Nodwyd fod un cais wedi dod i mewn. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r ymgeisydd i drefnu cyfweliad ar-lein gyda HR, NE + RD yn cyfweld. |

| | |
|---|---|
| | f) JH – Frondeg /C14/0905/24/LL – darn wedi ei ffensio<br>Yn absenoldeb JH penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>g) JH - Frondeg - gwaith heb ei orffen, angen gwneud y ffordd ar wal ar y gornel wedi disgyn / torri. Pwy sydd yn gwneud y gwaith adeiladu?<br>Yn absenoldeb JH penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>h) JH - Llwybr Rhandir Mwyn o Fryngwyn angen ei dorri<br>Cadarnhaodd y Clerc bod y gwaith torri gwair wedi ei gwblhau. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod y gwair yn flêr ag heb ei godi. Gofynnwyd i'r Clerc ymateb i'r cwyn gan egluro mai polisi'r Cyngor Cymuned ydi torri gwair yn unig ac nid ei gasglu oddi yno.<br><br>i) NE - Prynu ffôn i'r clerc gyda pheiriant ateb arno + gliniadur newydd.<br>Nodwyd y byddai'n fuddiol i'r clerc newydd gael ffôn arbennig i ddelio gyda materion y Cyngor Cymuned yn unig. Trafodwyd hefyd yr angen i gael offer cyfrifiadurol i'r cynghorwyr oedd ar hyn o bryd yn methu ymuno a'r cyfarfodydd ar-lein. Dywedodd AMJ ei fod am holi CG am offer ail law i'r perwyl hwn.<br><br>j) BH - Marchogaeth ceffylau drwy Stad Bro Wyled<br>Gall hyn fod yn broblem oherwydd bod y ffordd wedi cau ag y byddai wedi ei ddatrys unwaith y byddai'r ffordd wedi ail agor. Yn absenoldeb BH penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf. |
| **7.** | **Derbyn Adroddiadau** |
| | a) E-bost gan Dion, Prosiect Uwch Gwyrfai. Cadarnhaodd y Clerc y byddai Dion yn ymuno ar-lein yn y cyfarfod nesaf. |
| **8.** | **Materion Ariannol** |
| | **<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar y 16eg o Fedi, 2020</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balan a ddygwyd ymlaen (19.08.20) — 46,373.08<br>+ Praesept — 14,000.00<br><br>**Balans ar derfyn busnes 16eg o Fedi 2020 — <u>£60373.08</u>**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (19.08.20) — **16,298.41**<br>+ Siec (rhodd) — 100.00<br><br>- 101475 Cyflog y Clerc — 465.40<br>- 101476 Cyllid y Wlad — 105.60<br>- 101477 A. Hughes-Jones, Dyson a'u Cwmni (Payroll) — 204.00<br>- 101474 Aeron M Jones (gwariant arian loteri) — 351.02<br>- 101479 ROSPA (archwiliad cae chwarae) — 185.40<br>- 101480 Cyfrifiaduron Whitten (gwefan y Cyngor) — 180.00<br><br>**Balans ar derfyn busnes 16eg o Fedi, 2020 — <u>£14906.99</u>** |

| | |
|---|---|
| | **- Gwariant Grant loteri gymunedol**<br>- 19.08.20 Balans £9448.98<br><br>**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 16eg o Fedi, 2020**<br><br>Cyflog y Clerc + ad-daliad 587.60<br>Cyllid y Wlad 136.40<br>D H Roberts (ffens Llwybr Bryngwyn) 1500.00<br>A&M Catering (Cinio Dydd Sul – Arian Loteri) 408.00<br>Wyn Williams (Torri gwair) 1395.50<br><br>**Cyfanswm** **£ 4027.50**<br><br>Cytunwyd i'r taliadau ar gyfer y mis hwn. |
| **9.** | **Materion Cynllunio** |
| | **Materion Cynllunio**<br>a) Cais C/20/0697/24/TC - Golygfa, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7PB - cais tystysgrif cyfreithloni defnydd presennol o dir fel gardd gysylltiol a chwrtil. **DIM SYLWADAU A DIM GWRTHWYNEBIAD**<br><br>b) Ymateb i wrthwynebiad - Cais Cynllunio Bryn Derwen, Rhostryfan<br>Cais C20/0562/24/LL - Bryn Derwen, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7NB - dymchwel fferm dy presennol ynghyd a chodi tŷ newydd a gosod tanc trin newydd.<br>Nodwyd fod y cais gwreiddiol wedi ei wrthod oherwydd nid oeddynt wedi derbyn cyngor ar gynllunio. RD yn edrych i mewn i'r cais - Er bod y cynghorwyr wedi ei dderbyn ar y noson, mi roedd pryderon wedi ei godi ar ôl edrych mewn manylder ar y cais. Penderfynwyd ail-edrych ar y cais a'r ôl derbyn yr holl waith papur gan Gyngor Gwynedd. |
| **10.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) E-bost gan Gyngor Cymuned Llanllyfni – galw am gyfarfod i godi tal ar ymwelwyr i fyny'r Wyddfa. Cytunwyd i gefnogi'r cais mewn egwyddor.<br>b) Cais i dynnu arwydd "Hafoty" i lawr. Nid oedd y Cyngor Cymuned yn sicr pwy oedd yn berchen ar yr arwydd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda CG i ofyn pwy fyddai'n gyfrifol am ei dynnu i lawr.<br>**c)** E-bost yn holi am ddatblygiad tai newydd Rhosgadfan. Nodwyd nad oedd Grŵp Cynefin am arwyddo i gymryd cyfrifoldeb am y tai nes oedd y contractwr wedi gorffen y gwaith. Clerc i gysylltu gyda Grŵp Cynefin i roi pwysau arnynt. |
| **11.** | **Materion y cyfarfod nesaf** |
| | EE - Buddsoddi mewn offer cyfrifiadurol i'r cynghorwyr sydd heb fynediad i'r cyfarfodydd ar-lein.<br><br>NE - Cynnydd yn y nifer o geir yn mynd drwy Rhos Isaf, heibio Bryn Peris tuag at Carmel, angen llinellau gwyn ar y gyffordd.<br><br>**Cyfarfod nesaf: Nos Fercher, 21ain o Hydref 2020**<br>**Lleoliad – Ar-lein drwy Microsoft Teams** |